

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd y penwythnos diwethaf am farwolaeth Mrs Elizabeth Jones oedd yn aelod yng Nghapel Groes er yn byw yn Nhrefnant ers rhai blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Eifion Jones (Llansannan), Marian Jones (Cefn Berain), a hefyd eu brawd Dewi, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Davies (Llanfair) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ystod yr wythnos. Gweddïwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd yn cryfhau ac yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd, ac y bydd y llawdriniaeth yn llwyddiannus. Cofiw'n hefyd am Falmal Evans (Saron) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos. Rydym yn ei hamgylchynu hithau yn ein gweddïau ac yn hyderu y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Mae Elizabeth Hughes (Llansannan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Bae Colwyn, fel ag y mae Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun ac fe'i cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd. Deallwn hefyd fod Helen Jones (Peniel) wedi gorfod dychwelyd i Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn ddiweddar ond mae'n dda clywed ei bod bellach wedi cael dod adref. Hyderwn ei bod yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

Gwaith Cenhadol y Chwiorydd

Os nad ydych eisoes wedi ymateb, bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn cyn diwedd yr wythnos hon, os gwelwch yn dda, unrhyw gyfraniadau ariannol tuag at waith cenhadol y chwiorydd. Bydd y Sasiwn yn cael ei chynnal yn Llandudno ar Mai 12fed.

Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') erbyn Ebrill 20fed, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **NOSON GYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew. Croeso cynnes i bawb. £3.00 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) ym Mheniel ar Fai 17eg am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams.
- **DARLITH "MARI JONES AC ANN GRIFFITHS"** gan yr Athro E. Wyn James yn Festri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Ebrill 2015

Darlleniad y Dydd

Ioan 20:24-31

(BCND tud.127 / BCN: tud.116)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Ydi hi'n ormod gobeithio fod Gwanwyn newydd wedi cyrraedd tybed? Un peth sy'n sicr, fe ddaeth cyfle newydd heddiw i ni gyd-addoli yng ngwres Haul Cyfiawnder Duw ac mewn gobaith y bydd yr un Duw sydd yn ffyddlon yn ei greadigaeth yr un mor ffyddlon yn ei waith o godi ei Eglwys a'n bendithio i'w foli a'i wasanaethu. Diolch iddo am gael gweld arwyddion y gwanwyn daearol ac ysbrydol yn ein gwlad.

Dyna a gawsom yng Nghricieth yr wythnos yma – rhyw flaenbrawf yn Llanw o'r gwanwyn ysbrydol y mae Duw yn ei osod yng Nghymru. Cafwyd bendith arbennig o adeiladol, ac Ysbryd Duw a'i Air ar waith yn ein gwreiddio yn y gwirionedd am y groes a'r atgyfodiad. Roedd hi'n amlwg fod Rhodri wedi cael eneniad arbennig wrth baratoi a thraddodi'r pregethau yn ystod y boreau braf ar y 'Gair am y Groes' o lythyr cyntaf Paul at eglwys Crist yng Nghorinth. Cafodd ei arweiniad ddylanwad arnom fel corff o bobl Dduw a'r Ysbryd yn ein herio i beidio ag ofni 'doethineb yr oes' ond parhau i gyhoeddi Iesu a'i groes sef 'doethineb Duw' ei hun! Diolch i'r Arglwydd am arweiniad ei Ysbryd a chael mwynhau yng nghwmni'n gilydd. Diolch am ambell hufen ia o rewgell Cadwaladr hefyd!

Un o'r negeseuon a gafodd Rhodri i'w rhannu hefo ni oedd y gair sy'n cyfeirio at y perygl a ddaeth i mewn i fywyd yr eglwys yn gynnar iawn ac sy'n dal hefo ni, sef y perygl o gymryd plaid. Rhai yn dilyn Paul, rhai yn dilyn Pedr neu Apolos. Gosod pobl yn uwch nag y dylen nhw fod ac mae hynny'n groes i fwriad Duw wrth alw ei eglwys – Crist yw unig ben ar yr Eglwys a Christ yn unig ydi ffynhonell ei bywyd a'i hegni. Mae ymbleidio yn amddifadu'r eglwys o'i hegni a'i heffeithiolrwydd.

Rydan ni mewn cyfnod o lecsiwn lle mae llawer un yn ceisio ei (d)dyrchafu ei hun er mwyn ennill ein cefnogaeth, a phobl fel Russell Brand yn annog ieuencid i beidio â phleidleisio oherwydd nad oes modd ymddiried mewn gwleidyddion. Geiriau digon dylanwadol ond digon niweidiol hefyd. Mae angen i ni ddefnyddio'n pleidlais wrth reswm ac ystyried yn bwylllog – ond pobl feidrol a ffaeledig ydan ni i gyd – pob Paul a Phedr ac Apolos a phawb arall hefyd. Dim ond Un sydd yn deilwng o'n hymroddiad llwyr a dim ond Crist sydd i'w drystio i gyflawni ei addewidion yn llawn ac i glirio'n holl ddyled! 'Dilynaf fy Mugail trwy f'oes' ydi hi felly ac o dan faner Crist – neu yn hytrach o dan groes Crist – y cerddwn ymlaen.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 12^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 14^{eg}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 16^{eg}
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 17^{eg}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf – 19^{eg}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 14^{eg} Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Cynhelir Gwasanaeth i gyflwyno Apêl Ysbyty Shillong yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 12^{fed} Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 12^{fed} Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 12^{fed} Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma – 12^{fed} Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Yn ystod oedfa'r bore, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 17^{eg} Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Ebrill 12fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19^{eg} Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Actau 1:1-14 (BCND tud.128 / BCN: tud.118)